

Dull PESS o Addysgu Dawns - Cyfnod Allweddol 2

Gwers 5

Canlyniadau Gwers 5

- Ymarfer er mwyn gwella rhwyddineb a llif gweithrediadau
- Creu a pherfformio dawns mewn paruau sy’n arddangos unffurfiaeth ac amrywiaeth o weithrediadau dawns
- Disgrifio’r hyn y maent wedi’i gynnwys yn eu dawns gan ddefnyddio geiriau allweddol

Adolygu

Defnyddiwch y ddawns yr ydych wedi’i llunio hyd yn hyn fel gweithgaredd cynhesu gan geisio cynnwys y gwelliannau a nodwyd yn ystod y wers ddiwethaf.

Trac 3 ar CD sain Dull AGChY o Addysgu Dawns CA2.

Archwilio

Hoci-coci. Gofynnwch i’r disgyblion lunio’u fersiwn eu hunain o’r hoci-coci gan ddefnyddio’r ddawns draddodiadol fel ysbrydoliaeth. Dylai’r disgyblion gynnwys teithio ymlaen ac yn , ystumio gan ddefnyddio gwahanol rannau o’r corff a gweithrediadau troi. Mae’r disgyblion yn archwilio gwahanol weithrediadau, cyfeiriadau, llwybrau, lefelau a chydberthnasau gofodol gan symud ag unffurfiaeth. Trafodwch lif a rhwyddineb. Rhwyddineb o fewn gweithred neu symudiad, a llif rhwng gweithrediadau.

Creu

Lluniwch gymal dawns ar y pwnc ‘Hoci-coci’. Dylid perfformio’r cymal dawns hwn ag unffurfiaeth, a dylai gynnwys amrywiaeth o weithrediadau, cyfeiriadau, llwybrau, lefelau ac ati. Anogwch y disgyblion i ymarfer eu dawns er mwyn gwella’r llif.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at addasiadau dychmygus o’r Hoci-coci. Tynnwch sylw at ddisgyblion sy’n defnyddio ystod eang o weithrediadau dawns. Tynnwch sylw at gydberthnasau gofodol effeithiol. Tynnwch sylw at ddisgyblion sy’n symud yn effeithiol ac yn gywir ag unffurfiaeth. Tynnwch sylw at ddisgyblion sy’n arddangos rhwyddineb a llif da yn eu perfformiad. Beth y maent yn ei wneud i arddangos rhwyddineb a llif da? Beth y mae angen i chi ei wneud i wella rhwyddineb a llif eich cymal dawns? Rhowch ragor o amser i’r disgyblion ymarfer fel y gallant wella.

Perfformio

Perfformiwch eich dawns o flaen  arall nad ydych wedi gweithio gydag ef o’r blaen. Mae’r disgyblion yn arsylwi gan ystyried taflen werthuso 2.

Gwerthuso

Mae’r athro’n holi’r disgyblion ynghylch eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o eiriau allweddol: unffurfiaeth, teithio, troi, neidio, ystumio, llonyddwch, cyfeiriadau, lefelau, llwybrau, cyflymder, cydberthnasau, rhwyddineb a llif.